# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Ann Davies, Meirick Davies, Stuart Davies, Peter Evans, Huw Hilditch-Roberts, Alice Jones, Pat Jones, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, David Simmons, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a Huw Williams

Aelod Lleol – Bu'r Cynghorydd Gwyneth Kensler yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (SC); Rheolwr Datblygu (PM); Prif Swyddog Cynllunio (IW); Uwch Beiriannydd, Traffig a Thrafnidiaeth (MP), a'r Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Richard Davies, Rhys Hughes, Margaret McCarroll, Barry Mellor, Peter Owen a Paul Penlington

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Huw Williams – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 7 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Cefyn Williams – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 7 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Merfyn Parry – Cysylltiad Personol a Rhagfarnol – Eitem rhif 8 ar y Rhaglen

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2014.

Cywirdeb – Sylwodd y Cynghorydd Cheryl Williams nad oedd ei ymddiheuriadau am absenoldeb wedi'u cofnodi yn y cofnodion.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2014 fel cofnod cywir.*

## CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 18) -

Cyflwynwyd ceisiadau oedd yn ceisio penderfyniad y pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiol. Cyfeiriwyd hefyd at yr wybodaeth a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen ac yn ymwneud â'r ceisiadau penodol. Er mwyn caniatáu ceisiadau aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau ar lafar cytunwyd y dylid amrywio trefn rhaglen y ceisiadau fel y bo'n briodol.

**5 RHIF CAIS: 08/2014/1139/PF - TIR GER TRELARS IFOR WILLIAMS CYF, CYNWYD, CORWEN**

[Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol gan ei fod yn gwneud busnes gyda'r cwmni. Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad personol gan ei fod yn arfer gweithio i'r cwmni.]

Cyflwynwyd cais i ddymchwel yr annedd bresennol ac adeiladu maes parcio i wasanaethu ffatri gyfagos, gan gynnwys gwneud newidiadau i'r fynedfa bresennol, newidiadau i lefelau, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar dir ger Trelars Ifor Williams Cyf, Cynwyd, Corwen.

**Siaradwyr Cyhoeddus –**

Mr. Berwyn Owen **(O blaid)** – esboniodd y rhesymeg y tu ôl i'r cais i ddarparu parcio diogel i weithwyr ac ymwelwyr yn amlygu buddion hir dymor y cais a'i fuddion wrth fynd i'r afael a'r problemau parcio presennol.

**Dadl Gyffredinol –** Sylwodd y Cynghorydd Cefyn Williams (Aelod Lleol) bod y rhan fwyaf o bryderon yn ymwneud â materion traffig ac adroddodd yn ôl ar gynllun peilot i'w weithredu y byddai'n cyflwyno uchafswm cyflymder o 20mya yn yr ardal y byddai'n lliniaru'r pryderon hyn.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Cefyn Williams yr argymhelliad i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO – 20
GWRTHOD – 0
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

**6 RHIF CAIS: 31/2013/1079/PFHY - TIR YN ELWY MEADOWS, FFORDD ISAF DINBYCH, LLANELWY**

Cyflwynwyd cais i osod cynllun trydan dŵr micro ar dir yn Elwy Meadows, Ffordd Isaf Dinbych, Llanelwy.

**Siaradwyr Cyhoeddus –**

Mr. Ian McDonald **(Yn Erbyn)** – ailadroddodd ei wrthwynebiad i’r cais fel y manylwyd yn y cyflwyniadau ysgrifenedig gan ddod i’r casgliad y byddai’r cynllun yn cynhyrchu ychydig iawn o drydan ar gost fawr a niwed i’r afon a’r cynefin.

Mr. Richard Rees, Ymgeisydd **(O blaid)** – amlygodd y diffyg gwrthwynebiad ymysg ymgyngoreion statudol, adrannau cyngor a chynghorau dinas/cymunedol, gwrthbrofodd gyflwyniadau’r clwb pysgota lleol, a chadarnhaodd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi pob cydsyniad angenrheidiol.

**Dadl Gyffredinol –** Rhoddodd y Swyddog Cynllunio rywfaint o wybodaeth gefndirol a chyd-destun i’r cais. Eglurodd rolau gwahanol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a’r Cyngor fel awdurdod cynllunio o fewn y broses awdurdodi. Roedd y rhan fwyaf o bryderon a godwyd yn ymwneud â materion o dan reolaeth CNC a gofynnwyd i aelodau ffocysu eu sylw ar yr ystyriaethau cynllunio materol yn yr achos hwn. Roedd y Cynghorydd Meirick Davies (Aelod Lleol) yn fodlon fod ystyriaeth lawn wedi’i roi i bob mater a godwyd a chynigiodd bod y cais yn cael ei gymeradwyo, eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Huw Williams. Gofynnodd y Cynghorydd Dewi Owens i osod yr amodau arfaethedig a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas Llanelwy ond cynghorodd swyddogion bod y materion hynny i’w hystyried gan CNC ac nad oeddynt wedi gofyn i’r fath amodau gael eu gosod. Yn ystod y ddadl codwyd yr angen i ystyried pryderon ynghylch llifogydd a phryderon ynghylch mudo pysgod - o ganlyniad teimlodd rai aelodau y byddai hi wedi bod yn fuddiol petai cynrychiolwyr CNC wedi mynychu’r cyfarfod er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pryderon. Cynghorodd swyddogion bod CNC wedi dod i’r casgliad nad oedd yna berygl ychwanegol o lifogydd o ganlyniad i’r cynllun ac roeddynt hefyd yn fodlon â'r manylion ysgol bysgod a gymeradwywyd.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies yr argymhelliad i gymeradwyo’r cais, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Williams.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 2
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO’R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**7 RHIF CAIS: 44/2014/0830/PC - CIET (UK) LTD., YR HEN WAITH DŴR, FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais ar gyfer parhad yn nefnydd tir ac adeiladau i dderbyn, storio a dosbarthu deunyddiau, offer a cherbydau ysgafn sy’n ymwneud â gwifrau pŵer trydanol (cais ôl-weithredol) yn CIET (UK) LTD., Yr Hen Waith Dŵr, Ffordd Abergele, Rhuddlan, y Rhyl.

**Siaradwyr Cyhoeddus –**

Mr. Hughes **(O blaid)** – ymddiheurodd i breswylwyr lleol os oedd trallod wedi'i achosi dros y flwyddyn ddiwethaf a manylodd ar gynlluniau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd.

**Dadl Gyffredinol –** Sylwodd y Cynghorydd Ann Davies (Aelod Lleol) bod CIET (UK) Ltd wedi bod yn gweithredu heb ganiatâd cynllunio a bod amwynder preswyl wedi'i effeithio yn ystod y cyfnod. Teimlai bod yr amodau arfaethedig yn annigonol a gofynnodd am nifer o amodau ychwanegol i amddiffyn preswylwyr lleol ymhellach. Cyfeiriodd y Cynghorydd Arwel Roberts (Aelod Lleol) at hanes y safle a'r cyd-destun presennol wrth amlygu anhawster cydbwyso'r angen am fusnes a diogelu amwynder preswyl. Gofynnodd o ganlyniad y dylai'r safle dderbyn nwyddau rhwng 09.00 ac 17.00 Dydd Llun i Ddydd Gwener yn unig.

Cadarnhaodd y Swyddog Cynllunio bod swyddogion wedi cynnig amodau i reoli defnydd y busnes a lleihau'r effaith ar breswylwyr lleol. Teimlodd bod modd cryfhau'r amodau i gymryd i ystyriaeth safbwyntiau aelodau lleol. Ystyriodd bod yr amseroedd gweithredu y manylwyd amdanynt yn amod 2 yn rhesymol ac yr eir i'r afael â gweithredu swnllyd fel rhan o amod 1. Darparodd yr Uwch Beiriannydd safbwynt ar fater y priffyrdd gan gadarnhau nad oedd gan swyddogion sail i wrthwynebu. Yn nhermau'r posibilrwydd o reoli cyflymder cerbydau, awgrymodd y gallai bod rhinwedd mewn defnyddio arwyddion terfynau cyflymder cynghorol. Yng ngolau'r materion a godwyd gan aelodau lleol teimlodd y pwyllgor y dylai amodau ychwanegol gael eu gosod er mwyn mynd i'r afael â phryderon preswylwyr lleol.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry argymhelliad y swyddog i gymeradwyo, ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Win Mullen-James, yn amodol ar newid yn yr amseroedd yn amod 2 a chytuno manylion yr amodau ynghylch sŵn a phriffyrdd ag aelodau lleol.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO*** *yn unol ag argymhellion swyddogion fel y manylwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar amrywiad yn amod 2 yn newid yr amser gweithredu i fod rhwng 09.00 ac 17.00 Dydd Llun i Ddydd Gwener, a dylid dirprwyo pŵer i swyddogion ac aelodau lleol i osod amodau cynllunio i'r cydsyniad er mwyn ateb pryderon preswylwyr lleol.*

**8 RHIF CAIS: 45/2014/0388/PF - SAFLE'R GRANGE HOTEL, 41-42 EAST PARADE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel y fila ddwyreiniol ac ailddatblygu'r tir drwy adeiladu 44 o fflatiau sydd i gynnwys 21 o fannau parcio ar y safle, adfer a newid y waliau terfyn presennol a gwneud gwaith cysylltiedig ar Safle'r Grange Hotel 41-42 East Parade, y Rhyl.

**Siaradwyr Cyhoeddus –**

Mr. Robert Blount **(O blaid)** – cyfeiriodd at hanes y safle a natur y datblygiad arfaethedig y byddai'n creu cytbwysedd rhwng adnewyddiad a hyfywdra'r safle.

**Dadl Gyffredinol –** Roedd y Cynghorydd David Simmons (Aelod Lleol) yn fodlon cynnig yr argymhelliad i gymeradwyo ond cododd pryderon ynghylch parcio ceir a gofynnodd i osod amod bod preswylwyr yn y dyfodol yn prynu trwydded parcio. Gofynnodd hefyd i derfyniad caniatâd cynllunio gael ei ymestyn o ddwy i dair blynedd oherwydd oedi posib wrth i CADW cytuno â'r dymchwel. Amlygodd y Cynghorydd Win Mullen-James yr angen i gyfyngu mynediad/ymadawiad cerbydau adeiladu trwm o'r safle er mwyn rhoi mynediad at Gartref Nyrsio Bradshaw i gerbydau'r gwasanaethau brys. Ystyriodd y pwyllgor hanes y safle, ei gyflwr adfeiliedig a safbwyntiau'r Prisiwr Dosbarth yn nhermau hyfywdra ariannol y safle yn y dyfodol. Codwyd pryderon ynghylch colli treftadaeth o ganlyniad i'r datblygiad a'r cyferbyniad â'r adeilad modern a ddyluniwyd, cydbwyswyd hyn yn erbyn tebygoliaeth sicrhau datblygiad y safle yn y dyfodol petai caniatâd yn cael ei wrthod. Ymatebodd swyddogion i'r materion a godwyd, drwy fanylu ar ddarganfyddiadau'r asesiad priffyrdd a chynghori y byddai unrhyw angen i brynu trwydded parcio'n fater rhwng y datblygydd a'r prynwr arfaethedig. Esboniwyd a derbyniwyd y rhesymeg tu ôl i'r amserlen o ddwy flynedd i'r datblygiad yn dilyn cydsyniad adeilad rhestredig. Gofynnodd y Cynghorydd Alice Jones bod ystyriaeth yn cael ei roi i roi enw Cymraeg ar y datblygiad.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Win Mullen-James**.**

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 1
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**9 RHIF CAIS: 45/2014/0389/LB - SAFLE'R GRANGE HOTEL, 41-42 EAST PARADE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais adeilad rhestredig i ddymchwel y fila ddwyreiniol a'r anecs orllewinol ac ailddatblygu'r tir drwy adeiladu 44 o fflatiau sydd i gynnwys 21 o fannau parcio ar y safle, adfer a newid y waliau terfyn presennol a gwneud gwaith cysylltiedig ar Safle'r Grange Hotel 41-42 East Parade, y Rhyl.

**Siaradwyr Cyhoeddus –**

Mr. Robert Blount **(O blaid)** – manylodd ar hanes y safle, cyflwr adfeiliedig y fila ddwyreiniol a'r rhesymeg y tu ôl i'r dymchwel arfaethedig er mwyn sicrhau datblygiad hyfyw.

**Dadl Gyffredinol –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons (Aelod Lleol) yr argymhelliad i gymeradwyo, drwy amlygu statws yr adeilad fel dolur llygad sy'n destun fandaliaeth reolaidd fyddai'n elwa o'r datblygiad. Nodwyd y byddai angen

awdurdodiad gan CADW cyn cael cydsyniad adeilad rhestredig i'r dymchwel ac y gallai hyn oedi'r broses.

Siomwyd y Cynghorydd Meirick Davies i nodi cyflwr adfeiliedig y presennol yr adeilad a gofynnodd a oedd digon wedi'i wneud i sicrhau ei ddyfodol. Amlygodd swyddogion hanes brith y safle cyn y cais cyfredol a'r rhesymeg y tu ôl i'r diffyg gweithredu gorfodi oherwydd cyflwr ariannol y perchennog. Awgrymwyd bod modd ystyried unrhyw bryderon ynghylch hynny gan y pwyllgor craffu priodol.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Win Mullen-James.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 2
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**10 RHIF CAIS: 45/2014/0908/PF – LLE CHWARAE ODDI AR FFORDD CILGANT/GORDON AVENUE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i newid hen Lecyn Gemau Amlddefnydd yn brosiect tyfu bwyd cymunedol wedi'i wneud o randiroedd wedi'u codi ar y Maes Chwarae oddi ar Ffordd Cilgant / Gordon Avenue, y Rhyl.

**Siaradwyr Cyhoeddus –**

Mr. Paul Gallagher **(O blaid)** – amlygodd fuddion y cyfleuster arfaethedig fel canolbwynt fyddai'n dod â'r gymuned at ei gilydd, cyfeiriodd at y problemau oedd ynghlwm a'r safle fel Llecyn Gemau Amlddefnydd, ac ymatebodd i'r gwrthwynebiadau a godwyd.

**Dadl Gyffredinol –** Siaradodd y Cynghorydd David Simmonds ar ran aelodau lleol i gefnogi'r prosiect fel defnydd ardderchog ar gyfer y safle, lle'r oedd gofyn am gyfleuster o'r fath. Ychwanegodd bod yr hen Lecyn Gemau Amlddefnydd wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd yn ddolur llygaid. Roedd aelodau o blaid y cynllun ond cyfeiriwyd at yr angen i ystyried y potensial ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cyfleuster newydd. Nodwyd bod problemau gwrthgymdeithasol wedi eu lleihau oherwydd adleoli teuluoedd yng Ngorllewin y Rhyl.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Pat Jones.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 19
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

Ar y pwynt hwn (11.20 a.m.) cafwyd egwyl yn y cyfarfod ar gyfer lluniaeth.

**11 RHIF CAIS: 44/2014/0953/PF - 6, GROVE TERRACE, FFORDD Y TYWYSOG, RHUDDLAN, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais ar gyfer creu mynedfa newydd i gerbydau yn cynnwys cael gwared ar wal derfyn ym mlaen yr eiddo i greu gofod parcio ar gyfer un cerbyd yn 6, Grove Terrace, Ffordd y Tywysog, Rhuddlan.

Ystyriodd y Cynghorydd Ann Davies (Aelod Lleol) nad oedd yr adroddiad wedi ystyried yn llawn ceisiadau mynediad tebyg yn yr ardal yn ystod misoedd diweddar, ac awgrymodd bod y cais yn cael ei ohirio hyd nes ceir gwybodaeth bellach ynghylch hyn. Awgrymodd y Swyddog Cynllunio nad oedd yn ymwybodol o unrhyw geisiadau eraill oni bai am y rhai o fewn yr adroddiad a phapurau atodol ond roedd yn hapus i gytuno a'r cais i ohirio ac i geisio darparu mwy o fanylion. Cynghorodd y Cynghorydd Arwel Roberts nad oedd wedi bod yn bresennol yn yr ymweliad safle diweddar a bod ei bresenoldeb wedi'i gofnodi'n anghywir yn y papurau atodol.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Ann Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, bod y cais yn cael ei ohirio.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID GOHIRIO – 16
YN ERBYN GORHIRIO – 1
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **GOHIRIO'R** cais er mwyn caniatáu i fwy o wybodaeth gael ei darparu ynghylch ceisiadau mynediad blaenorol yn yr ardal.*

**12 RHIF CAIS: 01/2013/1599/PF – THE FORUM, 27-29 STRYD FAWR, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais i drosi llawr cyntaf ac ail lawr yr adeilad i greu dau fflat hunangynhwysol yn The Forum, 27-29 Stryd Fawr, Dinbych.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler (Aelod Lleol) bod ganddi bryderon ynghylch y cais. Teimlodd y Cynghorydd Meirick Davies bod y cynlluniau a ddarparwyd gyda'r cais yn annigonol a chynigodd bod y cais yn cael ei ohirio i alluogi i fwy o wybodaeth gael ei darparu. Gofynnodd hefyd bod ymweliad i'r safle'n cael ei drefnu. Cynghorodd y Swyddog Cynllunio bod mwyafrif y gwaith arfaethedig yn fewnol. Ystyriodd swyddogion bod digon o fanylion wedi'u darparu o fewn yr adroddiad ond fe barchwyd y safbwynt ganddynt fod angen mwy o wybodaeth.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Arwel Roberts, bod y cais yn cael ei ohirio.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID GOHIRIO – 17
YN ERBYN GORHIRIO – 0
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GOHIRIO'R*** *cais er mwyn i gynlluniau manwl pellach gael eu darparu.*

**13 RHIF CAIS: 01/2013/1601/PF – THE FORUM, 27-29 STRYD FAWR, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais adeilad rhestredig i drosi llawr cyntaf ac ail lawr yr adeilad i greu dau fflat hunangynhwysol yn The Forum, 27-29 Stryd Fawr, Dinbych.

**Cynnig –** Ailadroddodd y Cynghorydd Meirick Davies ei safbwynt (o dan yr eitem flaenorol) bod cynlluniau annigonol wedi'u darparu gyda'r cais a chynigodd, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Arwel Roberts, bod y cais yn cael ei ohirio.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID GOHIRIO – 17
YN ERBYN GORHIRIO – 0
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GOHIRIO'R*** *cais er mwyn i gynlluniau manwl pellach gael eu darparu.*

**14 RHIF CAIS: 18/2014/1133/PS - TIR Y TU ÔL I'R GOLDEN LION INN, LLANDYRNOG, DINBYCH**

[Datganodd y Cynghorydd Merfyn Parry, fel Ymgeisydd, gysylltiad personol a rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.]

Cyflwynwyd cais i ddileu amodau 6, 7 ac 8 Caniatâd Cynllunio Amlinellol rhif 18/2010/1503 yn ymwneud â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy ar dir y tu ôl i'r Golden Lion Inn, Llandyrnog, Dinbych.

**Cynnig –** Cynigodd y cynghorydd Meirick Davies yr argymhelliad i gymeradwyo, fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog.*

**15 RHIF CAIS: 41/2014/0757/PF - YEW TREE, BODFARI, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais ar gyfer codi annedd ddeulawr newydd a garej (diwygiad i gynllun a gymeradwywyd yn flaenorol dan gais rhif 41/2013/1498/PF) yn Yew Tree, Bodfari, Dinbych.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 17
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**16 RHIF CAIS: 43/2014/0905/PF - ICELAND FOODS A BEVANS HOMEWARES, FFORDD LLYS NANT, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel unedau manwerthu presennol, adeiladu teras o 4 uned manwerthu newydd, ail-gyflunio'r maes parcio presennol i gwsmeriaid, gwneud estyniad i'r maes parcio presennol i staff i'r gogledd-ddwyrain o'r safle a gwneud gwaith tirweddu cysylltiedig a gwaith i ganiatáu mynediad i gerddwyr / seiclwyr / cerbydau (Cam 2 Parc Siopa Prestatyn) yn Iceland Foods a Bevans Homewares, Ffordd Llys Nant, Prestatyn.

**Dadl Gyffredinol** – Rhoddodd y Swyddog Cynllunio rhywfaint o wybodaeth gefndirol a chyd-destun i'r cais a manylodd ar y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad i ganiatáu. Mynegodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Lleol) bryderon ynghylch agweddau neilltuol o'r cynllun ond derbyniodd y gwaith lliniaru a gyflawnwyd o ystyried y cyfyngiadau ar isadeiledd. Wrth gymryd i ystyriaeth effaith bositif y cynllun ar gyflogadwyedd a'r economi, cynigiodd yr argymhelliad i gymeradwyo, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Stuart Davies. Nid oedd y Cynghorydd Bob Murray yn gwrthwynebu'r cais ond manylodd pryderon ynghylch effaith gweledol, amwynder preswyl a materion ynghylch priffyrdd ac ymgeisiodd sicrwydd pellach ynghylch y rhain. Yn ystod y ddadl ganlynol ystyriwyd buddion y cynllun gan aelodau a thrafodwyd pryderon â swyddogion a adroddodd ar ddarganfyddiadau'r asesiad priffyrdd a'r archwiliad diogelwch annibynnol ynghyd â mesurau i liniaru pryderon ynghylch priffyrdd. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r datblygiad yn cael ei fonitro am gyfnod o chwe mis yn dilyn ei agor â golwg ar fynd i'r afael ag unrhyw bryderon pellach yn codi ohono. Ystyriwyd bod modd mynd i'r afael yn ddigonol â phryderon cynllunio eraill drwy amodau ac fe drafododd aelodau'r potensial am amodau pellach i liniaru'r pryderon a godwyd.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhelliad i gymeradwyo, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Stuart Davies, yn amodol ar amodau ychwanegol yn gofyn am osod wal sgrin ar hyd Ffordd Llys Nant ac arwyddion cynghorol ar gyfer cerbydau'n defnyddio'r safle er mwyn lliniaru problemau traffig.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 17

GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papur atodol, a bod pŵer yn cael ei dirprwyo i swyddogion, yn cydweithio â'r Aelod Lleol, i osod amodau cynllunio ychwanegol ar y cymeradwyaeth ynghylch gosod wal sgrin ar hyd Ffordd Llys Nant ac arwyddion cynghorol ar gyfer cerbydau ar y safle.*

**17 RHIF CAIS: 45/2014/0875/PF - 56 ST. MARGARETS DRIVE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i adeiladu ystafell haul wrth ochr annedd yn 56 St. Margaret's Drive, Y Rhyl.

**Dadl Gyffredinol** – Awgrymodd y Cynghorydd David Simmons nad oedd gan yr Aelod Lleol y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

**Cynnig** – Ni chododd y Cynghorydd Cheryl Williams (Aelod Lleol) unrhyw wrthwynebiad a chynigodd yr argymhelliad i gymeradwyo, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**18 RHIF CAIS: 45/2014/1132/PF - 11-33 ABBEY STREET, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel rhif 11 – 25 Abbey Street ac adeiladu 7 annedd â gerddi, parcio a thirlunio cysylltiol; ac ailwampio 4 fflat a 2 uned manwerthu llawr gwaelod yn 27 – 33 Abbey Street.

**Dadl Gyffredinol –** Siaradodd y Cynghorydd David Simmons o blaid y cais ar ran yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr Ian Armstrong a Joan Butterfield. Cynghorodd bod y gwaith yn ffurfio rhan o ailddatblygu Gorllewin y Rhyl ac roedd yn cynnig llety gwell o lawer na'r anheddau presennol.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons yr argymhelliad i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Pat Jones.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 16
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

## 19 PROSIECT ISADEILEDD MAWR CYSYLLTIADAU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU - CYMRYD RHAN YN Y BROSES GYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn ceisio safbwyntiau aelodau ar os ddylai'r Cyngor gymryd rhan yn y broses gynllunio'n ymwneud â Phrosiect Isadeiledd Mawr Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.

Atgoffwyd aelodau gan swyddogion o gefndir yr adroddiad a'r ffaith bod y cyngor wedi mabwysiadu gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r prosiect llinell uwchben o blaid cysylltiad tanddaearol. Er gwaetha'r safbwynt hynny roedd Scottish Power Manweb wedi cadarnhau eu bwriad i symud ymlaen â chynigion i osod llinellau uwchben a manylodd swyddogion ar ddewisiadau ymgysylltu'r Cyngor yn y dyfodol o ran y broses cynllunio ynghyd â'r goblygiadau sy'n codi ohonynt.

Yn ystod dadl fanwl ystyriodd aelodau buddion bob dewis er mwyn bodloni eu hunain ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen i alluogi'r cyngor i weithredu'r dylanwad fwyaf dros y prosiect fferm wynt a darparu'r gynrychiolaeth orau posib ar ran preswylwyr. Wrth gydnabod gwrthwynebiad y Cyngor i linellau uwchben, nodwyd y gall gwrthod ymwneud â'r broses achosi diffyg cyfle i'r Cyngor awgrymu cynigion lliniaru pe bai angen. Ystyriodd aelodau hefyd yng ngolau cyfyngiadau ariannol presennol y gallai fod yn amhriodol ariannu'r ymwneud â'r broses pan fo hi'n bosib adennill y costau hyn gan y datblygwr. Cadarnhaodd swyddogion y byddai cyngor ac arweiniad yn cael ei roi i aelodau fel rhan o'r broses fel gydag apeliadau cynllunio. Amlygwyd hefyd y perygl y gall ymwneud â'r broses arwain at ymgynghorwyr annibynnol yn anghytuno â safbwynt y Cyngor ynghylch llinellau uwchben a thanseilio'r gwrthwynebiad hynny.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry Ddewis C fel y manylwyd o fewn yr adroddiad, fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Evans. Yng ngolwg yr amnewidiadau posib yn codi o'r bleidlais fe'i hystyriwyd hi'n ymarferol i bleidleisio ar y dewis cyntaf fel y manylwyd o fewn yr adroddiad ar y dechrau. O ganlyniad cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Ddewis A, fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Win Mullen-James.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID – 15
YN ERBYN – 0
YMATAL – 1

***PENDERFYNWYD** mewn cydlyniad a Dewis A fel y manylwyd o fewn yr adroddiad, bod y Cyngor yn arwyddo Cytundeb Perfformiad Cynllunio ac yn ymwneud â'r broses.*

## 20 PROTOCOL AR GYFER PANELI ARCHWILIO SAFLE

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn cyflwyno protocol diwygiedig ar gyfer llwyfannu Paneli Arolygu Safle i'w mabwysiadu gan y pwyllgor. Yng ngolau adolygiad cyfredol gan Lywodraeth Cymru i mewn i agweddau ar swyddogaeth gynllunio Awdurdodau Lleol argymhellwyd gan swyddogion bod y canllawiau diwygiedig yn cael eu mabwysiadu am gyfnod prawf pellach o chwe mis, yn disgwyl datblygiadau.

Tynnwyd sylw aelodau at y cynydd mewn aelodaeth i gynnwys cynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol. Yn anffodus ni fu llawer yn mynychu ymweliadau safle a gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp annog i'w haelodau fynychu a sicrhau gwell gynrychiolaeth yn y cyfarfodydd hynny. Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies iddi gael ei wneud yn gliriach yn y protocol bod aelodaeth yn cynnwys cynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol yn ogystal â'r aelodaeth bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Protocol Panel Arolygu Safle diwygiedig, fel yr atodwyd i'r brif adroddiad, yn cael ei mabwysiadu am gyfnod pellach o chwe mis.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 p.m.